Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Bro Allta

**Central Street**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7XQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Bro Allta

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Bro Allta |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 288 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 244 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 36 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 7.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 13.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 6.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/03/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/04/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae bron bob disgybl yn hynod falch o'u hysgol a'u bod yn perthyn i deulu Bro Allta. Maent yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd hynod gynhwysol, cartrefol a gofalgar. Mae bron bob un yn ymddwyn yn ardderchog yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mhob agwedd o'u gwaith. Maent yn hynod gwrtais a pharchus i'w gilydd, i'r staff ac i ymwelwyr. Mae eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau cymunedol yn un o brif nodweddion yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod pob un yn cael cyfleoedd eang i ymgymryd â rolau arwain ar amrywiol bwyllgorau dros gyfnod.

Mae'r pennaeth yn arweinydd effeithiol sy'n gosod bri ar roi'r addysg orau i ddisgyblion mewn amgylchedd hapus a diogel. Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i greu cymuned deuluol a chynhwysol sy'n hybu parch parhaus rhwng disgyblion ac oedolion. Pwysleisir pedwar gair i grynhoi'r hyn sy'n bwysig yn yr ysgol, sef: Cymreictod, Caredigrwydd, Cyfrifoldeb a Chwrteisi. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r rhain ac yn cyfeirio atynt yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol brosesau cynhwysfawr i adnabod yr hyn mae'n ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella, ac mae ganddi weithdrefnau llwyddiannus i wneud y gwelliannau sydd eu hangen.

Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae staff yn cydweithio'n hynod effeithiol i ddarparu cwricwlwm sy'n eang a chytbwys ac sy'n sbarduno disgyblion i fwynhau eu dysgu gan ddatblygu'r rhan fwyaf o'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ynghyd â medrau eraill, yn hynod lwyddiannus. Er bod gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ym mron bob maes, nid yw'r rhain bob amser yn ddigon cytûn wrth gefnogi disgyblion i gymhwyso'u medrau ysgrifennu estynedig i safon gyson mewn ychydig ohonynt. Mae staff yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn fwriadus drwy ystod o weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol ac mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i hynny.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel a chytûn i i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig i safon gyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau cymdeithasol sy'n cyfateb i'r disgwyl am eu hoed. Ychydig sy'n cychwyn yn medru siarad Cymraeg. Er hyn, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd o aelwydydd ag incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mhob agwedd o'u dysgu. Mae bron bob un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae medrau gwrando bron bob disgybl yn datblygu'n dda iawn, ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar yn y ddwy iaith. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, er enghraifft, mae llawer yn datblygu patrymau iaith safonol yn gynnar iawn drwy drafod materion fel eu teimladau neu'r tywydd, a sgwrsio â'i gilydd yn anffurfiol yng nghaffi'r dosbarth. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn huawdl a hyderus ac yn falch o ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn darllen yn ystyrlon a gyda rhuglder cynyddol ac yn esbonio'n glir gynnwys testun. Maent yn trafod eu hoff awduron gan roi rhesymau dilys am eu dewis. O ystyried eu hoed a'u cam datblygu, lle bo'n briodol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu i bwrpas gan ddefnyddio ystod o arddulliau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ysgrifennu darnau i ddwyn i gof eu hymweliad â Theml Hindŵaidd. Mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu erthyglau papur newydd yn seiliedig ar hanes Anne Frank, gan ddewis a dethol ansoddeiriau'n ofalus wrth ddangos empathi a dealltwriaeth sensitif o'r cyd-destun. Er hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion ar frig yr ysgol bob amser yn cyflawni darnau ysgrifennu estynedig i'r un safon ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu a defnyddio'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn gynyddol hyderus. Er enghraifft, mae'r rheini yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf yn dod i gyfri'n gywir, gan ddeall bod rhif yn cyfleu gwybodaeth benodol. Ym Mlwyddyn 1 a 2, maent yn trefnu rhifau ac yn dechrau dod i ddeall gwerth lle. Maent yn cyfateb darnau arian gyda'u gwerth, ac yn eu defnyddio i brynu gwrthrychau. Ar frig yr ysgol, mae bron bob un yn defnyddio'u dealltwriaeth o'r pedair rheol a'u gwybodaeth am rif i gymharu data mewn amrywiol gyd-destunau, fel y tymheredd yng Nghymru a'r tymheredd yn Ne Affrica.

Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn dda wrth ddatblygu eu medrau digidol mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio rhaglen electronig i gyflwyno data ar wastraff plastig ar ffurf graff bar. Mae llawer hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus ar gynhyrchu cyflwyniadau digidol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio sgrin werdd i greu fideo i rannu ffeithiau diddorol am yr ardal leol gyda'u cyfoedion. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn creu a dadansoddi taenlenni'n fedrus i gyflwyno a chymharu prisiau nwyddau yn ystod yr Ail Ryfel Byd gyda phrisiau heddiw. Mae llawer yn caffael medrau codio yn effeithiol wrth raglennu crwydryn i ymweld â gwledydd sy'n dioddef o lifogydd ar fap o'r byd, er enghraifft.

Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd, a'u medrau ehangach, yn ystyrlon, yn briodol ac i bwrpas mewn amrywiol gyd-destunau. Er enghraifft, adeg Diwrnod Plant Mewn Angen, creodd disgyblion Blwyddyn 2 fisgedi i godi arian at yr elusen. Roeddent yn darllen cyfarwyddiadau, dadansoddi'r camau a'u hesbonio ar lafar i weddill y dosbarth, cyn pwyso'r cynhwysion a chyfrif cost cynhyrchu nifer benodol o fisgedi. Yna, aethant ati i greu cyflwyniad o'u gwaith i'w rannu â'u rhieni mewn gwasanaeth dosbarth. Mewn cyd-destun gwahanol, cynhaliodd disgyblion Blwyddyn 4 arbrawf i ddarganfod os yw maint jar yn effeithio ar yr amser mae cannwyll sydd wedi ei chynnau a'i gosod ynddo yn ei gymryd i ddiffodd. Cynlluniodd y disgyblion yr arbrawf yn ofalus, gan ysgrifennu'r camau mewn trefn. Yna, cyfrifon nhw gyfaint gwahanol jariau a'r amser gymerodd y canhwyllau i ddiffodd ynddynt, cyn cofnodi'r gwaith a chreu graff digidol i arddangos y canlyniadau, a thrafod yr hyn a ddarganfuwyd ar lafar.

Mae safonau creadigol bron bob disgybl yn datblygu'n hynod effeithiol. Mae bron bob un, dros amser, yn chwarae offeryn o ryw fath, fel y recorder neu'r iwcalili. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o rythm a thempo, ynghyd ag ehangu eu hymwybyddiaeth o elfennau perfformio cerddoriaeth. Mae bron bob un yn greadigol, ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o arddull artistiaid o Gymru a thu hwnt.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd hynod gartrefol a gofalgar yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi pe bai ganddynt bryder, gan ddeall y byddai bob amser rywun yno i wrando arnynt a'u cysuro. Maent yn hyderus bod y staff yn eu parchu ac y byddent bob amser yn ystyried eu barn wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae bron bob un disgybl yn hynod falch o'u hysgol a'u bod yn perthyn i deulu Bro Allta. Mae'r rhan fwyaf yn siarad yn frwdfrydig am eu dysgu. Maent yn datgan eu bod yn mwynhau bod yn yr ysgol oherwydd bod y staff yn gofalu'n dda amdanynt a'u bod yn cael profiadau dysgu a chyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr. Maent yn mwynhau cymryd rhan yn yr ystod eang o glybiau, cystadlaethau a theithiau a drefnir ar eu cyfer. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y cyfraddau uchel o bresenoldeb sy'n bodoli, ac maent yn parhau i godi'n gyson. Ar hyn o bryd, mae'r cyfraddau hyn yn sylweddol uwch na chyfraddau cyfartalog presenoldeb ysgolion cynradd yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn ardderchog. Maent yn hynod gwrtais a pharchus, ac yn cyfarch staff, ymwelwyr a'u cyfoedion yn serchog a brwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn eiddgar a chydwybodol i'w gweithgareddau yn y dosbarth, mewn ardaloedd dysgu canolog ac yn yr awyr agored.

Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd gofalu am eu hiechyd corfforol ac yn deall effaith fanteisiol cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chadw'n heini. Mae llawer yn mynychu'r ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol a gynigir iddynt. Maent yn cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon fel pêl-droed a rhedeg traws gwlad yn rheolaidd. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn gwerthfawrogi bod cyswllt penodol yn bodoli rhwng iechyd corfforol a lles meddyliol ac emosiynol.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'u hawliau fel plant yn datblygu'n gadarn. Maent yn ymwybodol bod ganddynt yr hawl i fod yn ddiogel ym mhob man, gan gynnwys ar-lein. Mae cyfraniad sylweddol yr arweinwyr digidol wrth baratoi cyflwyniadau a gweithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar-lein, yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn fel dinasyddion moesegol a gwybodus sy'n deall a gwerthfawrogi bod pobl mewn cymunedau lleol a thu hwnt yn gallu byw bywydau sy'n wahanol i'w rhai nhw. Mae aelodau'r pwyllgor lles yn gwirfoddoli yn y banc bwyd lleol yn wythnosol, yn pacio bagiau a sgwrsio â phreswylwyr hŷn yr ardal. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at feithrin eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud cyfraniadau effeithiol o fewn eu cymuned leol yn ogystal â chymuned yr ysgol.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi modd cynhwysol yr ysgol o sicrhau bod pob un, gan gynnwys y rheini sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu, sy'n fregus, neu sy'n newydd i'r ysgol, yn cael cyfleoedd eang i ymgymryd â rolau arwain ar amrywiol bwyllgorau dros gyfnod. Mae dealltwriaeth disgyblion o'u cyfrifoldebau cymunedol yn un o brif nodweddion yr ysgol hon. Maent yn cydweithio'n gynhyrchiol i gyflawni amcanion y pwyllgorau ac yn creu cynlluniau gweithredu manwl a gwerthusiadau o'u gweithgarwch i sicrhau eu bod yn gweithredu yn y modd gorau posibl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, galluog ac annibynnol. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig yn ystod sesiynau dysgu, gan ddyfalbarhau a dangos gwytnwch wrth wynebu sefyllfaoedd heriol neu wybodaeth sy'n newydd iddynt. Er enghraifft, heb arweiniad penodol oedolyn, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio amrywiol gyfryngau yn y ddwy iaith i chwilio am wybodaeth benodol am dywydd eithafol cyn ysgrifennu podlediad cyfrwng Cymraeg ar y testun.

Mae bron bob disgybl yn cyfrannu'n bwrpasol yn ystod sesiynau dysgu trwy gynnig eu syniadau eu hunain a chydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion mewn gweithgareddau pâr neu grŵp. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n aeddfed ac yn myfyrio, parchu, holi, herio a chefnogi syniadau a chyfraniadau ei gilydd yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu, gan ymateb yn gadarnhaol i gyngor ynglŷn â sut i wella eu gwaith.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cydweithio'n hynod effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n sbarduno disgyblion i fwynhau eu dysgu. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ac yn gydlynol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae athrawon yn gweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i weithredu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn fedrus. Mae'r ysgol yn flaengar wrth ystyried y cyd-destun lleol wrth gynllunio gweithgareddau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn ystyried effaith streic y glowyr ar fywyd trigolion Ystrad Mynach yn yr 1980au.

Mae athrawon yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn barhaus, gan fanteisio ar gyfraniadau gwerthfawr aelodau'r gymuned. Er enghraifft, mae siaradwr gwadd o'r gymuned yn

cyflwyno arteffactau a bwydydd traddodiadol o’i blentyndod yn Ne Affrica i ddisgyblion ar frig yr ysgol. Mae hyn yn caniatáu iddynt gymharu eu hunaniaeth nhw â brodorion De Affrica. Mae athrawon yn cynllunio ymweliadau diddorol i’r disgyblion, sy’n berthnasol i’w themâu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn dysgu am nodweddion cestyll mwnt a beili yng Nghymru yn dilyn ymweliad â Chastell Caerdydd. Mae athrawon yn trefnu teithiau preswyl i ddisgyblion yn rheolaidd i gyfoethogi’r cwricwlwm ac i godi eu hyder a’u hymwybyddiaeth o’u treftadaeth. Er enghraifft, mae disgyblion o wahanol ddosbarthiadau yn ymweld yn flynyddol â chanolfannau preswyl yr Urdd mewn gwahanol rannau o Gymru.

Mae’r berthynas sy’n bodoli rhwng staff a disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae aelodau’r tîm addysgu, sef yr athrawon a’r cynorthwywyr, a’r staff ategol fel yr ysgrifenyddes a’r gofalwr, yn gynnes, yn ofalgar ac yn gefnogol o bob disgybl. Mae aelodau’r tîm addysgu yn sicrhau bod y rhan fwyaf o’r gweithgareddau yn bodloni anghenion y disgyblion yn gyson, gan roi ystyriaeth lawn i anghenion dysgu unigolion wrth gynllunio’r cwricwlwm. Lle bo angen, mae cynorthwywyr yn cynnig cefnogaeth effeithiol i unigolion a grwpiau penodol, sy’n eu galluogi i wneud cynnydd cadarn yn unol â’u targedau. Mae’r ystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau ysgogol a difyr sy’n ddeniadol, yn dathlu llwyddiannau’r disgyblion yn dda ac yn eu cynorthwyo’n effeithiol â’u dysgu.

Caiff disgyblion ystod o gyfleoedd diddorol i ddatblygu eu hamrywiol fedrau yn briodol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion y dosbarth derbyn ddatblygu eu medrau llafar wrth drafod y deunydd gorau i’w ddefnyddio i greu ymbarél i Sali Mali. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyson a phriodol i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu disgrifiad swydd i aelod staff gan ddefnyddio amrywiaeth o agoriadau ac ansoddeiriau diddorol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ysgrifennu i ystod o wahanol bwrpasau ond nid yw eu disgwyliadau bob amser yn ddigon uchel i sicrhau eu bod yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig i’r un safon gyson mewn ychydig o dasgau. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau rhifedd a digidol y disgyblion yn gadarn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cyflwyno data yn ddigidol ar ffurf tabl a graff bar gan ddadansoddi hyd cadwyni papur grwpiau amrywiol o fewn y dosbarth.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o’r ystafelloedd dosbarth a’r ardaloedd allanol i sbarduno’r dysgu a hybu medrau’r disgyblion ymhellach. Er enghraifft, maent yn cynnal picnic gyda disgyblion Blwyddyn 1 a’u Tedi ac yn eu hannog i drafod eu hoff fwydydd. Mae athrawon hefyd yn manteisio ar gyfleusterau y tu hwnt i safle’r ysgol yn hynod effeithiol i gyfoethogi’r dysgu. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 3 gynnal ymholiad mewn coedlan gyfagos wrth ystyried effaith newid hinsawdd ar goed a llwyni brodorol yr ardal leol.

Mae llawer o athrawon a chynorthwywyr yn holi disgyblion yn synhwyrol yn ystod cyflwyniadau ac yn rhannu adborth adeiladol sy’n canmol eu cryfderau ac yn nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymateb yn gynyddol effeithiol i adborth ac yn gwella elfennau o’u gwaith o ganlyniad, er enghraifft drwy ychwanegu cysyllteiriau at eu cyfarwyddiadau i gyfoethogi’r gwaith. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn gwerthuso’u dysgu yn synhwyrol yn ystod y sesiwn Gwener Gwirio. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn

gwneud defnydd effeithiol o'r Wal Gwella er mwyn modelu gwaith ysgrifennu sy'n dangos gwelliant cynyddol. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i wella'u gwaith eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyfathrebu â disgyblion gan ddefnyddio Cymraeg graenus a safonol. Maent yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn fwriadus drwy ystod o weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, ar Ddydd Gŵyl Dewi, cafodd y disgyblion gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned drwy sgwrsio â thrigolion yr ardal leol ar y stryd fawr, mewn siopau, a'r llyfrgell leol. O ganlyniad, mae medrau llafar Cymraeg a dylanwad y disgyblion ar Gymreictod yn y gymuned yn datblygu'n llwyddiannus.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn rhoi bri ar sicrhau bod hapusrwydd, diogelwch a lles bob disgybl yn ganolog i holl waith ac ethos yr ysgol. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i greu cymuned deuluol a chynhwysol sy'n hybu parch parhaus rhwng disgyblion ac oedolion. Mae'r gweithdrefnau i fonitro, cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn llwyddiannus ac mae'r pennaeth a'r tîm addysgu yn blaenoriaethu iechyd a lles emosiynol bob disgybl er mwyn eu cefnogi i fod yn barod i ddysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn hapus ac mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i adnabod eu hanghenion lles a'u gofynion dysgu. Maent yn crynhoi manylion pwysig am bob disgybl yn drylwyr ar broffiliau un tudalen, sy'n fodd hygyrch i alluogi aelodau'r tîm addysgu i adnabod anghenion disgyblion a phersonoli'r ddarpariaeth iddynt.

Mae trefniadau'r ysgol i gefnogi disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, yn hynod effeithiol a threfnus. Mae'r cydlynydd ADY (CADY) yn gweithio'n llwyddiannus gyda gweddill y tîm addysgu i gydnabod anghenion penodol unigolion yn gynnar, a gweithredu ar gynlluniau sydd wedi eu teilwra ar eu cyfer. Mae amrywiaeth y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y disgyblion yn dda, gan wella'u medrau dysgu, cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r CADY yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn mewn perthynas â'u targedau unigol ac yn gwneud defnydd llwyddiannus o gefnogaeth gan asiantaethau allanol i sicrhau eu bod yn derbyn cymorth ychwanegol arbenigol. O ganlyniad, mae bron bob un sydd ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae arweinwyr ac aelodau'r tîm addysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo a chefnogi ymddygiad priodol yn ystod sesiynau cefnogi. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r llyfryn 'Gwerthuso fy Nysgu' i gofnodi'r camau dysgu nesaf mae'r disgyblion a staff wedi cytuno arnynt, sy'n ymwneud â'u hagweddau at ddysgu a'u hymrwymiad i ymddwyn yn dda.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel cyfeillgarwch, hapusrwydd a pharchu amrywiaeth. Mae gweithgareddau a diwrnodau penodol fel diwrnod mynegi eich hunain, wythnos gwrthfwlio ac wythnos diogelwch ar-lein yn cynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau da a myfyrio ar faterion cyfoes. Mae aelodau'r tîm addysgu yn darparu ystod eang o brofiadau a chyfleoedd i ddisgyblion

ddysgu am wahanol grefyddau ac mae'r rhain yn llwyddo i ennyn eu diddordeb a'u chwilfrydedd yn dda. Mae astudio arferion y Nadolig, Diwali a Shabbat yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o arferion gwahanol grefyddau yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant yn hynod effeithiol. Mae disgyblion bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i ddathlu eu Cymreictod a dathlu hanes a thraddodiadau Cymru trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau fel Eisteddfodau, ymweliadau a'u defnydd cyson o'r ardal leol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyson i sicrhau bod disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol. I wella'u ffitrwydd a'u hannog i fyw yn iach, darperir ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol a chystadleuol, fel chwaraeon yr Urdd. Yn ogystal, cynigir ystod ddefnyddiol o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau i godi eu hyder ac i ddatblygu ymhellach eu medrau creadigol. Mae cyfranogiad y disgyblion mewn gweithgareddau fel Ffilifest, er enghraifft, nid yn unig yn meithrin eu hyder, ond hefyd yn datblygu eu gallu i gydweithio ag eraill a pherfformio o flaen cynulleidfa.

Mae'r ysgol yn cefnogi grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys, er enghraifft, y rheini sydd ag ADY, i wneud penderfyniadau ysgol gyfan o fewn eu pwyllgorau a chynghorau. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu at y dasg o adolygu'r polisi gwisg ysgol fel ei fod yn fwy cynhwysol, ac mae pwyllgor ECO wedi trefnu diwrnodau ailgylchu pennau plastig, dillad a llyfrau. Maent, er enghraifft wedi ymweld â chanolfan ailgylchu leol i ddeall sut yn union mae'r awdurdod lleol yn ailgylchu deunyddiau amrywiol. Mae'r profiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o ailgylchu a'u cyfrifoldeb fel dinasyddion egwyddorol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd egnïol, trefnus ac effeithiol ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol y mae'n ei rhannu'n llwyddiannus â'r disgyblion, staff a'r rhieni. Mae'r weledigaeth honno'n greiddiol i holl weithgareddau'r ysgol ac yn seiliedig ar gydweithio i roi'r addysg orau i'r disgyblion, gan fagu cariad a pharch tuag at ieithoedd a diwylliant cyfoethog Cymru, ac at ieithoedd a diwylliannau eraill. Prif nod yr ysgol yw meithrin unigolion cyflawn, caredig a chyfrifol a fydd, maes o law, yn aelodau gwerthfawr o'u cymuned leol a chymdeithas ehangach y byd. Pwysleisir pedwar gair i gloriannu ei disgwyliadau, sef: Cymreictod, Caredigrwydd, Cyfrifoldeb a Chwrteisi, ac mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r rhain ac yn cyfeirio atynt yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn cynnal diwylliant parhaus o welliant yn effeithiol. Mae'r pennaeth, y dirprwy, yr arweinwyr eraill, yr athrawon a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n hynod effeithiol fel tîm i arwain yr addysgu'n llwyddiannus. Ar y cyd, maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu maent yn eu cynnig i'r holl ddisgyblion yn briodol, safonol, cyffrous, diddorol a chyfoethog.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, yr athrawon, y cynorthwywyr a'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn hafan

gartrefol i'r disgyblion a'r staff. Maent yn meithrin diwylliant diogelu cadarn, ac yn monitro cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad yr athrawon a'r cynorthwywyr yn barhaus i ganmol eu llwyddiannau proffesiynol a'u hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir y mae angen eu gwella er budd y disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso manwl ac effeithiol ac mae holl aelodau'r tîm arwain yn cyfrannu'n uniongyrchol atynt. Mae disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr hefyd yn cyfrannu atynt yn rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi eu seilio ar ystod o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol, ac yn rhoi darlun hynod fanwl a chywir o'r sefyllfa gyfredol. Mae'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau gwella. Mae gweithdrefnau gwella'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar wella cyflawniad, cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn seilio gweithgareddau dysgu proffesiynol staff ar flaenoriaethau cenedlaethol, blaenoriaethau gwella'r ysgol ac ar eu hanghenion proffesiynol unigol. Maent yn monitro effaith y gweithgareddau hyn ar y ddarpariaeth a'r dulliau addysgu yn rheolaidd. Maent hefyd yn trefnu bod athrawon yn arsylwi ar arfer dda ei gilydd ar draws yr ysgol ac mewn ysgolion eraill o fewn y clwstwr lleol. Yn ddiweddar, er enghraifft, maent wedi canolbwyntio ar arsylwi ar wahanol ddulliau o addysgu darllen.

Mae llywodraethwyr yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i arweinwyr. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i werthuso agweddau penodol o'r ddarpariaeth ac i gynnal trafodaethau â'r cydlynwyr meysydd dysgu a phrofiad a'r disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r ychydig feysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n hynod wybodus at bennu'r blaenoriaethau strategol ac i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Ynghyd â'r pennaeth, y swyddog gweinyddol, a swyddogion yr awdurdod lleol, maent yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Maent hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau pwrpasol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas gynhyrchiol â rhieni. Maent yn rhoi cyfleoedd rheolaidd iddynt fynegi barn am agweddau ar y ddarpariaeth, gan ymateb yn amserol i'w sylwadau, lle bo'n briodol. Er enghraifft, maent wedi addasu dulliau'r ysgol o gyfathrebu â rhieni yn dilyn holiadur diweddar. Mae arweinwyr bellach yn anfon negeseuon digidol a chylchlythyr at rieni yn gyson i'w hysbysu am faterion pwysig. Yn achlysurol, mae arweinwyr yn trefnu sesiynau effeithiol i ddatblygu gallu rhieni i gefnogi eu plant gartref, er enghraifft drwy eu hannog i ddarllen a defnyddio'u medrau rhifedd, ac i esbonio trefniadau'r ysgol i addysgu disgyblion am berthnasoedd iach.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth fuddiol â chylchoedd chwarae a'r ysgol uwchradd leol i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus o un sector i'r llall. Mae'r bartneriaeth ag ysgolion cynradd eraill y clwstwr, a'r ysgol uwchradd, yn effeithiol iawn, ac yn darparu cyfleoedd llwyddiannus i athrawon gyd-gynllunio a rhannu arferion addysgu llwyddiannus ymysg ei gilydd.

Trwy gydweithio â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd ac ysgolion eraill y clwstwr, mae'r ysgol, nid yn unig yn hyfforddi darpar athrawon yn effeithiol, ond hefyd yn elwa o'u cael yn rhan o'r tîm addysgu. Mae cefnogi hyfforddeion hefyd yn cyfoethogi profiadau dysgu proffesiynol a dulliau ymchwilio'r staff, sydd, yn ei dro, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/06/2024